Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

8. Rheoli arian

8.3 Adennill y gost lawn

Pam?

Yn hanesyddol, mae mudiadau'r trydydd sector wedi brwydro i sicrhau ariannu ar gyfer eu costau cyffredinol, yn arwain at danfuddsoddi mewn rheolaeth ac arweinyddiaeth, rhwydwaith mewnol ac allanol, datblygiad strategaethol a threfn lywodraethol. Gwaethygwyd yr anhawster gan duedd arianwyr y sector i ariannu costau uniongyrchol prosiectau yn hytrach na chostau cyffredinol neu 'ariannu craidd'. Mae methiant i sicrhau ariannu ar gyfer costau ychwanegol yn gwneud gwasanaethau pwysig a'r mudiadau sy'n eu traddodi yn anghynaladwy. Mae cynrychiolwyr y llywodraeth a'r sector wedi cytuno ar ddatrysiad i'r broblem: *adennill y gost lawn.*

O dan hwn, mae mudiadau a'u harianwyr yn sicrhau bod pris cytundebau a grantiau yn adlewyrchu costau llawn trosgludiad, gan gynnwys rhan o'r costau cyffredinol. Mae'r ymrwymiad hwn yn creu heriau i fudiadau a'u harianwyr.

Rhaid i fudiadau trydydd sector ariannu'r prosiectau a'r gwasanaethau ar sail gywir, amddiffynnol a chynaliadwy. Rhaid i'r llywodraeth sicrhau fod pob corff cyhoeddus yn ariannu gwasanaethau yn gynaliadwy, drwy ganiatáu cynnwys prisiau yn adran berthnasol y costau cyffredinol, a sicrhau pennu prisiau ar sail realistig.

Cadarnhawyd egwyddor adennill y gost lawn gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn ei adolygiad trawstorri, *The role of the voluntary sector in service delivery*. Nodwyd yn yr adolygiad: *'Funders should recognise that it is legitimate for providers to include the relevant element of overheads in their cost estimates for providing a given service under service agreement or contract.'*

Beth yw adennill cost lawn?

Ystyr hyn yw adennill neu ariannu cost llawn prosiect neu wasanaeth. Yn ogystal â'r costau sy'n uniongyrchol ynghlwm wrth y prosiect, megis staff a chyfarpar, bydd y prosiectau hefyd yn tynnu ar weddill y mudiad. Er enghraifft, mae'r canlynol yn rhannau annatod o unrhyw brosiect neu wasanaeth: ariannu digonol, adnoddau dynol, rheolaeth a systemau TG.
Mae cost lawn unrhyw brosiect felly yn cynnwys elfen o bob math o gost gyffredinol, a ddylid ei ddyrannu ar sail llawn cadarn ac amddiffynnol.

Gweithrediad

Mae gan bob mudiad gostau cyffredinol, yn gysylltiedig â:

- Rheolaeth ac arweiniad.
- Rhwydwaith a lleoliad.

- Cyllid, llywodraethu a rheoliad.
- Datblygiad strategaethol.

Rhaid cwrdd â'r costau cyffredinol yma i sicrhau goroesiad, tyfiant a datblygiad y mudiad. Felly maen nhw'n hanfodol i bob allbwn.

Wrth adennill y gost lawn, mae mudiadau yn dadansoddi eu costau cyffredinol ac yn eu dyrannu ar draws yr allbwn, prosiectau a gwasanaethau. Yn ôl y system yma mae cost pob allbwn yn cynnwys elfen addas o ariannu ar gyfer y costau cyffredinol.

Drwy weithredu adennill y gost lawn, mae mudiadau trydydd sector yn datblygu gwir ddealltwriaeth o'u gwaith. Mae'r fath ddealltwriaeth yn hanfodol i reoli ariannol effeithiol a chynllunio strategaethol ar draws unrhyw fudiad. Bydd deall gwir gost eich mudiad yn eich galluogi i gael deialog wybodus gydag arianwyr ynglŷn â:

- Ymgeisio am grant
- Tendro cystadleuol, a
- Chodi arian

Bydd adennill y gost lawn yn helpu mudiadau i osgoi problemau sydd ynghlwm wrth:

- Genhedlu diffygion ariannu drwy ddefnyddio canrannau mympwyol costau rheoli.
- Trosiad cost: ceisio ailbacio costau cyffredinol fel prosiectau; a
- Cyfraniad cost: ceisio dod o hyd i 'ariannu craidd' prin i ymdrin â chostau cyffredinol.

Mae adennill y gost lawn yn ymarfer safonol ar draws y sector fasnachol, ac mae'n tyfu i fod yn ymarfer safonol yn y trydydd sector.

Enghraifft

Dywedwch eich bod yn gwneud cais am grant i draddodi prosiect penodol. Ar ben costau uniongyrchol staff ychwanegol, cyfrifiaduron ychwanegol, cyfarpar swyddfa ac ati, bydd y prosiect yn cymryd peth o amser eich Prif Weithredwr, amser eich Rheolwr Cyllid ac amser eich staff TG atodol. Er mwyn cyflawni adennill y gost lawn, rhaid i gyfanswm yr ariannu a ddymunwch ei gael yn y cais grant adlewyrchu cyfanswm yr amser a roddir i'r prosiect gan y staff yma, fel rhan o'r costau cyffredinol.

Felly, os mai cost flynyddol cyflogi'r Prif Weithredwr yw £50,000 (gan gynnwys cyflog, Yswiriant Cenedlaethol, cyfran rhent / gwasanaethau ac ati), a'u bod yn gwario 10% o'u hamser yn gweithio ar y prosiect, bydd angen i chi gynnwys cost o £5,000 i'r Prif Weithredwr yn eich cais ariannu er mwyn adennill eich costau llawn. Bydd yr un peth yn wir am amser y Rheolwr Cyllid a chefnogaeth TG. Mae'r costau hyn i gyd yn angenrheidiol er mwyn gweithredu'r prosiect yn effeithiol, ac felly gallwch gyfiawnhau gofyn iddynt gael eu hariannu.

Os nad yw'ch mudiad yn adennill costau llawn prosiectau, mae yna berygl creu diffyg a fydd rhaid ei dalu gan ariannu ychwanegol neu ddefnyddio cronfeydd heb eu cyfyngu. Golyga hyn fod y mudiad cyfan yn rhoi cymhorthdal i'r prosiect, a all beryglu'r gallu i barhau i ddarparu'r gwasanaethau yn y dyfodol.

Gwybodaeth bellach

Full Cost Recovery - a guide and toolkit on cost allocation: Guide & Interactive CD-Rom
www.acevo.org.uk

Big Lottery Fund – cyfarwyddyd defnyddiol
www.biglotteryfund.org.uk

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Bryndulais, 67 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7AB
Elusen Gofrestredig *1061364*

Ffôn: 01570 423232 gen@cavo.org.uk
Ffacs: 01570 422427 www.cavo.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:01/12/2009

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk